

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai
Nos Iau 21 Mehefin 2018 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Gwen Griffith

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Mair Jones

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Mair Jones. Diolchodd i bawb am ei hethol yn Gadeirydd am y flwyddyn.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mary Hayes a Dafydd Roberts

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2018.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Llwybr beics pentref Llandygai- dal i ddisgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd.

3.2 Lloches bws ger Stad Ddiwydiannol Llandygai- angen ei lanhau. Y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i'w wneud.

3.3 Llwybr 59, Carreg Y Fedwen-y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i wneud y gwaith.

3.4 Adroddwyd bod angen gosod bin halen yn Bro Syr Ifor. Dim brys i'w osod ar hyn o bryd.

3.5 Llochesi bws Mynydd Llandygai a Ffordd Tan Rhiw-wedi eu paentio. Diolch i Bradites a Chwmni Adsefydlu Cymunedol.

3.6 Tynal Tywyll-y goleuadau/lampau heb gael eu newid. Y clerc i holi Cyngor Gwynedd am eu hamserlen i ymgymryd â'r gwaith.

3.7 Tarmac yn codi yn Bro Syr Ifor-y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Problem hefyd yn Erw Faen.

3.8 Hywel Williams AS yn holi am unrhyw elusen lleol fyddai'n elwa o rodd bychan.. Penderfynwyd ychwanegu Cylch Meithrin Llandygai i'r rhestr hefyd.

3.9 Wal wedi ei malu ar Ffordd Tan Rhiw yn dilyn damwain car. Gwaith blêr o'i roi yn ôl at ei gilydd. Dim ymateb hyd yn hyn gan Gyngor Gwynedd.

- 3.10** Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y dwannel. Y Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, ond heb gael ymateb.
- 3.11** Lôn Gefn, Dob-angen sylw i dorri'r rhedyn yn fuan gan ei fod yn tyfu allan i'r ffordd. Y Clerc i holi unwaith eto.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2018'

Cyflwynwyd: e-bost gan Pwyllgor Bwrlwm Haf-cais am rodd o £50 tuag at darian a medalau i'r digwyddiad. Penderfynwyd rhoi'r rhodd.

Cyflwynwyd: e-bost gan Rachel Parry am y broblem gyda llyisiau'r dial yn Mynydd Llandygai. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i rannu gwybodaeth ar dudalen Facebook Ogwen i godi ymwybyddiaeth, ac hefyd am ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Amgylcheddol.

Cyflwynwyd: e-bost gan NALC-model Rheolau Sefydlog 2018-penderfynwyd bydd y Clerc yn astudio'r dogfennau ac yn gwirio fel bod angen cyn i'r Cyngor fabwysiadu'r rheolau.

Cyflwynwyd: e-bost gan Christina Allen ynglŷn a ceir yn gyrru yn Mynydd Llandygai. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd bod angen mwy o arwyddion ar hyd y ffordd, ac hefyd rhwystrau cyflymder. Aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd yn fodlon cyfarfod ar y safle i drafod y problemau.

Cyflwynwyd: e-bost gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru-ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol. Penderfynwyd bydd yr aelodau yn ymateb i'r arolwg ar-lein fel unigolion.

Cyflwynwyd: e-bost gan Un Llais Cymru ynglŷn a grant ar gael ar gyfer gosod cysgodlun Sul y Cofio. Penderfynwyd bydd y Clerc yn anfon y wybodaeth ymlaen i'r Eglwys.

Cyflwynwyd: e-bost gan y Cyng. Dafydd Owen. Gohebiaeth yn dilyn cais cynllunio am fynedfa rhwng Penrala Cottage a Capel Shiloh. Y Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd am yr angen am balmant o Ganolfan Tregarth at y Lôn Las.

5. Gwaith y mis

5.1 Angen cael toriad i'r gwair ar y llain o dir yn Pentref Llandygai. Gwasanaeth gan Cyngor Gwynedd wedi bod yn siomedig iawn y flwyddyn yma.

5.2 Parc Bryn Cegin-tua 7 o garafanau sipiwn wedi cyrraedd y safle. Y Clerc i hysbysu'r Llywodraeth ac Adran Cyfreithiol Cyngor Gwynedd.

5.3 Llwybrau cyhoeddus-y Cyng. Dafydd Owen wedi anfon rhestr i'r contractwr.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – adroddwyd bod gwaith trydanol am gael ei ymgymryd gan Jones & Whitehead-goleuadau yn y neuadd a peiriannau sychu dwylo i'r Ysgol Feithrin ac yn y 3 toiled. Adroddwyd hefyd bod y Clwb Ieuenctid wedi dechrau gwagio eu pethau o'r ganolfan. Bydd angen paentio dros y graffiti yn ystod yr haf.

Ysgol Llandygai- adroddwyd bod y llywodraethwyr yn gweithio'n galed, ac hefyd bod yr ysgol yn cael archwiliad cyn bo hir.

Ysgol Bodfeurig- ymddiheurodd y Cyng. Richard Fraser-Williams gan ei fod wedi methu'r cyfarfod wythnos diwethaf, ond adroddodd bod yr ysgol yn ceisio ffederaleiddio.

Clwb Ieuenctid Mynydd Llandygai- y Cyng. Mair Jones a Iwan Hywel wedi cyfarfod gyda'r gwirfoddolwyr sydd am redeg y Clwb. Y Cyngor yn awyddus i helpu gyda'r broses cychwynnol i sefydlu'r clwb.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mai.

7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

G Williams-llwybrau cyhoeddus £3192.00

9. Cyfraniad neuaddau

Penderfynwyd ar y cyfraniadau canlynol ar gyfer y neuaddau

Neuadd Goffa	£900 llynedd a £1100 eleni =	£2000.00
Canolfan Tregarth	£1100 llynedd a £1100 eleni =	£2200.00
Neuadd Talgai	£660 llynedd a £660 eleni =	£1320.00

Penderfynwyd bod y Clerc i holi Cyngor Cymuned Llanllechid am eu cyfraniad tuag at Neuadd Talgai.

10. Ffurflen Blynyddol

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

11. Sedd wag Ward Mynydd Llandygai

Dim diddordeb hyd yn hyn.

12. Penderfyniadau Cynllunio

C17/0903/16/LL

Carreg y Fedwen, Sling, Tregarth
Creu canolfan ymchwil a menter
iachâd cysegredig gan gynnwys codi
pedwar adeilad newydd, creu
meysydd parcio a chodi wal ffin 2.3m
o uchder (cais diwygiedig i gais
dynnwyd yn ôl - C16/1158/16/LL)
Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau.

C17/1266/16/LL

Tir yn Bryn Cul, Tal Gae, Tregarth
Gosod mast telathrebu 17.5 metr o
uchder gan gynnwys 3 antena a 2
ddysgl darlledu ynghyd a 2 gaban offer
a 1 cabinet mesurydd a gwaith atodol

C17/1237/11/LL
C17/1236/11/CR

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau.

Angorfa'r Prince Madog, Port Penrhyn, Bangor

Gwaith tynnu strwythur codi cychod presennol a chodi strwythur newydd

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau.

C18/0123/16/TC

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling Cais tystysgrif cyfreithloni defnydd fel annedd breswyl Defnydd Dosbarth C3

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd.

C18/0291/16/LL

44 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor
Gostwng cyrbiau a thynnu wal i lawr ar gyfer creu mynedfa gerbydol a man parcio

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

C18/0198/16/LL

Fferm Moelyci, Lon Felin Hen, Tregarth

Estyniad i'r cwt gwair presennol er mwyn lleoli 9 cynhwysedd i'w defnyddio ar gyfer swyddfa, unedau sychu ac ar gyfer addasu deunydd biomas i greu cynnyrch fel gwrtaith hylifol. Lleoli tanciau yn yr iard ar gyfer storio bio-nwy ac ar gyfer defnydd treulio anerobig.

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

C18/0358/16/LL

Asiantaeth Safonau Gyrru, Ystad Ddiwydiannol Llandygai
Estyniad i'r uned bresennol, ymestyn y maes parcio ynghyd a newidiadau mewnol i'r uned ei hun

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

13. Ceisiadau Cynllunio
C18/0484/16/CR

Plas y Coed, Bangor

Newidiadau i'r caniatâd gwreiddiol er caniatáu addasiadau mewnol ac allanol

Penderfyniad: Dim sylw

C18/0422/16/LL

Y Wern, 2 Pentref Llandygai, Llandygai
Codi tŷ deulawr, llecynnau parcio ynghyd ac offer trin carthion

Penderfyniad: Cefnogi

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ fforddiadwy

Penderfyniad: Gwrthwynebu, oherwydd problem traffig a nifer o geir yn y stad, ac hefyd bod angen mwy o wybodaeth am y carthffosiaeth.

Ymgynghoriad cyn-cynllunio

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Angen amser i ymgynghori gyda trigolion Glasinfryn a Pentir.

C18/0511/16/LL

2 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai
Creu estyniad llawr cyntaf yng nghefn yr eiddo.

Penderfyniad: Cefnogi

C18/0528/16/CC

Dyma Fo, 16 Pentref Llandygai, Bangor
Gwaith i goed o fewn ardal gorchymyn gwarchod coed

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

NP3/16/10C

Fferm Pentre, Nant Ffrancon
Pâr o feudai-newid defnydd tir i gynnwys 5 lle parcio, cadw deunyddiau, gwaith peirianyddol a tirlunio.

Penderfyniad: Cefnogi

14. Unrhyw fater brys arall

Dim i'w drafod.